

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

19 Gorffennaf 2019

Ystafell Addysg

10.00 – 1.00

Presennol:

Rhodri Glyn Thomas (Llywydd)
Gwilym Dyfri Jones
Steve Williams
Richard Houdmont

Lee Yale-Helms (Trysorydd)
Hugh Thomas
Yr Arglwydd Aberdâr

Eleri Twynog Humphries
Liz Siberry
Iwan Davies

Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd
David Michael
Owain Roberts

Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd
Cyfarwyddwr (dros dro) Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus

Hefyd yn bresennol:

Jason Garcia	Swyddfa Archwilio Cymru
Emyr Phillips	Pennaeth Cyllid a Menter
Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (Cofnodydd)
Annwen Isaac	Rheolwr Adnoddau Dynol
Nia Wyn Dafydd	Cyngor Partneriaeth
Doug Jones	Cyngor Partneriaeth

Nick Vaill a Mark Wheeler o gwmi Investec ar gyfer cyflwyniad o 12.30 – 1.00

1.1 Croeso'r Llywydd a Sylwadau Agoriadol

Croesawodd y Llywydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod, ac adroddwyd nad oedd swyddogion Cymal yn bresennol, gan fod y trefniadau newydd sydd mewn lle gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn nodi nad oes angen iddynt fynychu cyfarfodydd o'r Bwrdd fel sylwedyddion erbyn hyn.

1.2 Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dyfrig Jones.

1.3 Datgan Buddiannau

Datganodd y Llywydd ei fod yn Ymddiriedolwr ar Fwrdd Gardd Fotaneg Cymru.

Datganodd Gwilym Dyfri Jones ei fod yn aelod o staff Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datganodd Liz Siberry ei bod yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru, yn aelod o Gyngor Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn Ymddiriedolwr o Ymddiriedolaeth Elusennol Gregynog.

Datganodd Steve Williams ei fod yn aelod o staff Prifysgol Abertawe ac yn Gadeirydd WHELF.

Datganodd Richard Houdmont fudd fel tiwtor cysylltiol gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Datganodd David Michael ei fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Datganodd Pedr ap Llwyd ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

1.4 Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 26 Ebrill a thrafod materion sy'n codi

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd, yn amodol ar y cywiriadau canlynol; roedd Steve Williams yn bresennol yn y cyfarfod ar 26 Ebrill, ond nid felly Iwan Davies.. Cymeradwywyd y cofnodion gan Hugh Thomas a'u heilio gan Iwan Davies.

Materion yn codi o'r cofnodion

Casgliad Mumph

Bydd yr ymateb i'r ymgrych codi arian yn cael ei adrodd dan 3.6

Setliad Cyflog

Cadarnhaodd David Michael nad oedd unrhyw newid wedi bod ers y cyfarfod diwethaf ynglŷn â chodiad cyflog. Mae'r Is Grŵp Cyflog y mae David yn aelod ohono yn adolygu telerau pensiynau ac mae'r Rheolwr Adnoddau Dynol yn aelod o'r grŵp sy'n adolygu amodau gwaith. Erbyn mis Hydref gobeithir medru cysoni amodau a thelerau gwaith ar draws y sector cyhoeddus. Er bod y Llyfrgell wedi derbyn cyllid i ariannu'r codiad cyflog gan Lywodraeth Cymru yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae ansicrwydd yn parhau yn ei gylch, gan nad yw yn cael ei ychwanegu at y llinell sylfaen.

1.5 Pwyntiau gweithredu o gyfarfod 26 Ebrill

Cyflwynwyd rhestr o'r pwyntiau gweithredu i'r aelodau ac fe nodwyd bod y cyfan wedi'u gweithredu.

Adran 2 Materion sydd angen trafodaeth neu benderfyniad

2.1 Cynllun Gweithredu 2019 – 2020 a Dangosyddion Perfformiad 2019 – 2020

Cyflwynodd y Prif Weithredwr y Cynllun Gweithredu i'r Bwrdd a nododd fod y gweithrediadau arfaethedig yn cynnwys gofynion y Dirprwy Weinidog, fel y nodir hwy yn Llythyr Cylch Gorchwyl 2019 – 2021.

Tynnodd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd sylw'r Ymddiriedolwyr at yr atodiadau diwygiedig, sef rhai 1,3 a 4, yn neilltuol, gan fod yr atodiadau eraill sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun eisoes wedi'u cymeradwyo. . Nodwyd mai'r prif flaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf fydd;

1. Uwchraddio gwasanaethau Oriel Gregynog, sydd hefyd yn flaenoriaeth i'r Dirprwy Weinidog, sydd wedi darparu cyllid ychwanegol i gwblhau'r gwaith
2. Gwaith cynnal a chadw ar yr adeilad
3. Sefydlu'r Archif Ddarlledu Genedlaethol
4. Datblygu'r Prif Gyntedd ynghyd â gofodau eraill y gellir gwneud gwell defnydd ohonynt
5. Codi incwm a chodi arian

Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, byddwn yn pwysu ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddod at ei gilydd a chytuno ar gynllun a fyddai'n gweld sefydlu Archif Genedlaethol i Gymru: byddwn hefyd yn dadlau mai'r Llyfrgell Genedlaethol yw'r sefydliad delfrydol i gynorthwyo'r llywodraethau i sefydlu'r Archif.

Nodwyd yn ogystal y drafodaeth sy'n digwydd ar hyn o bryd ymhlith gwleidyddion a swyddogion ynghylch y posibilrwydd o sefydlu Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol. Adroddwyd bod y Dirprwy Weinidog wedi mynegi gobaith y gwelai ef ran o'r oriel yn cael ei sefydlu yn y Llyfrgell Genedlaethol. Serch hynny, fe rybuddiodd y Prif Weithredwr, pan fydd yn amser sefydlu oriel gelf gyfoes, na ddylai'r Llyfrgell ymrwymo adnoddau ond yn hytrach trafod costau referniw rhedeg yr oriel gyda Llywodraeth Cymru. Cytunodd yr Ymddiriedolwyr gyda'r awgrym yma.

Yn dilyn cyflwyniad defnyddiol gan y Prif Weithredwr i'r Cynllun Gweithredu, gofynnwyd a fyddai modd darparu dogfen lefel uchel yn unig ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd o hyn ymlaen sy'n amlygu'r prif faterion a heriau, yn hytrach na darparu'r holl fanylion gweithredol fel y gwneir ar hyn o bryd. Gellir gosod yr adroddiad llawn ar wefan neilltuol yr Ymddiriedolwyr petai unrhyw un am graffu'n fanylach ar weithredoedd y Llyfrgell. Cytunodd y Prif Weithredwr gyda'r awgrym yma, ac mi fydd hyn yn weithredol o gyfarfod mis Medi ymlaen.

Cyflwynodd Owain Roberts y dangosyddion perfformiad, sy'n ganlyniad trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Llyfrgell. Mae Llywodraeth Cymru am i'r Llyfrgell ganolbwyntio ar agweddau cyhoeddus/gwasanaeth yn eu dangosyddion ar gyfer 2019 - 2020. Mae hefyd

nodiau eglurhaol wedi eu cynnwys gyda'r dangosyddion sy'n rhoi naratif i ddisgrifio'r canlyniadau yn well.

Diolchodd yr Ymddiriedolwyr am y wybodaeth ond gofynnwyd a fyddai modd canolbwyntio'n fanylach ar un neu ddau ddangosydd penodol ymhob cyfarfod e.e. ymweliadau â'r we; beth oedd hyd yr ymweliad, beth a welwyd ac ati? Gofynnwyd hefyd ynglŷn ag ymgyrchoedd penodol, ac a fyddai modd cael ffigyrau manwl am ymgyrch arbennig ymhob cyfarfod. Cytunodd y Tîm Gweithredol i weithredu hyn o gyfarfod mis Medi ymlaen.

2.2 Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn ffynhonnell bwysig o sicrwydd allanol fod y Llyfrgell yn rheoli risgiau'n briodol ac yn ymarfer llywodraethiant da. Cafwyd cyflwyniad gan Grant Vernon, Rheolwr Archwilio Llywodraeth Cymru, yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill, ac yn dilyn hynny, cafwyd diweddariad gan David Michael yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 5 Gorffennaf, pryd y nododd nad oedd cytundeb na chost wedi eu cyflwyno eto am y gwasanaeth gan Lywodraeth Cymru.

Erbyn hyn, mae cytundeb a chostau wedi eu derbyn, ac argymhelliad y Tîm Gweithredol oedd y dylai'r Bwrdd gymeradwyo'r bwriad i ddod i gytundeb â Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol am gyfnod o flwyddyn, gydag estyniad posibl hyd at dair blynedd yn amodol ar ansawdd digonol o wasanaeth a chadarnhad o'r cytundeb a phris. Cytunodd y Bwrdd gyda'r argymhelliad yma, ond ar gais Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, cytunwyd y byddai ei bwyllgor ef yn edrych ar fanylion y cytundeb lefel gwasanaeth (SLA) yn ei gyfarfod nesaf.

2.3 Calendar y Bwrdd a'i Bwyllgorau

Cyflwynwyd y calendar, sydd wedi ei baratoi gan Glerc y Bwrdd. Cytunodd yr Ymddiriedolwyr y dylid neilltuo cyfarfod 1 Mai 2020 ar gyfer trafod strategaeth nesaf y Llyfrgell. Cymeradwywyd y dyddiadau ac mi fydd y calendar yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Llyfrgell.

Adran 3 Gwybodaeth a Diweddariadau

3.1 Archif Ddarlledu Genedlaethol

Nodwyd eisoes y byddai'r cyfarfod hawl i gychwyn yn digwydd ar 15 Awst, ac mae pob dim mewn llaw ar gyfer hynny. Mae cyfarfod wedi ei drefnu gyda Llywodraeth Cymru ym mis Medi i sicrhau fod y gofynion a wnaed gan Dafydd Elis Thomas AC, yn ei lythyr yn cadarnhau'r cyllid o £1m yn cael eu gwireddu.

Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar 5 Gorffennaf fod yna ddwy risg yn perthyn i'r Prosiect

1. Penodi staff i weithio ar y prosiect
2. Cost yr adeilad

Disgwylir penodi tua 15 o staff o fewn y 18-24 mis nesaf, a hyd nes gwneir y penodiadau hynny, mae'n anodd rhagweld beth fydd effaith hyn ar lefelau staffio'r Llyfrgell. Mae'n debygol y bydd cryn dipyn o arbenigedd y Llyfrgell yn trosglwyddo i weithio ar y prosiect, ac er bod y Llyfrgell wedi ymrwymo i ôl lenwi'r swyddi hynny, mi fydd yn sialens i lenwi'r swyddi gwag hynny.

O ran yr adeilad, ni ellir bod yn sicr o'r gost hyd nes byddwn yn mynd allan i dendr, ond mae Capita yn gobeithio cael prisiau cyn y Nadolig. Gall Brexit hefyd effeithio ar gostau deunydd adeiladu ac mae hynny yn ychwanegu at y risg.

Cytunwyd i fynd â'r Ymddiriedolwyr o gwmpas yr adeilad yn dilyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi i weld ble bydd yr adeilad newydd yn cael ei leoli, ac i weld gofodau eraill sy'n cael eu datblygu.

3.2 Cofrestr Risg

Cyflwynwyd y gofrestr gan Emyr Phillips. Nid oes risgiau newydd wedi eu hychwanegu, ac nid oes unrhyw risgiau wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr.

Mae'r risg Increase in cost of pension benefits results in an increase in employer contributions to the pension scheme, which becomes unaffordable to the Library's revenue budget wedi cynyddu gan fod y pensiwn lleiafswm gwarantedig yn mynd i arwain at gostau ychwanegol i'r Llyfrgell. Mi fydd costau buddion at y dyfodol hefyd yn effeithio'n fawr ar y Llyfrgell. Nodwyd fod y Bwrdd Cynllun Pensiwn yn cadw llygad ar y sefyllfa.

Gwnaed nifer o argymhellion ynghylch y gofrestr risg yn archwiliad mewnol RSM, a nododd Emyr Phillips y bydd yr argymhellion yma wedi eu gweithredu mewn pryd ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Tachwedd.

3.3 Y Gen Ebrill – Mehefin 2019

Diolchodd yr Ymddiriedolwyr i'r Tîm Gweithredol am yr adroddiad ar waith y Llyfrgell am y chwarter blaenorol. Adroddodd y Prif Weithredwr mai un o'r dangosyddion gorau o lwyddiant yw derbyn adborth positif gan ein defnyddwyr, gan gyfeirio at lythyr gan wraig o Abergwaun yn diolch i'r Llyfrgell ag Oriol Llyfrgell Glan yr Afon am ddwy arddangosfa wych gafodd eu llwyfannu yn yr Oriol. Mae'r staff a fu ynghlwm â'r ddwy arddangosfa wedi derbyn copi o'r llythyr.

3.4 Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu

Diolchwyd i'r staff am ddarparu presenoldeb yn Eisteddfod yr Urdd, ac i'r rhai fydd yn mynychu'r Sioe a'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae ail sefydlu stondin ein hunain yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn golygu fod modd i ni gynllunio rhaglen o ddigwyddiadau annibynnol, ac mae'r rhaglen honno eisoes wedi ei chylchredeg i'r Ymddiriedolwyr .

3.5 Amserlen ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Strategol nesaf

Cylchredwyd amserlen, a baratowyd gan Glerc y Bwrdd, ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Strategol nesaf. Cymeradwywyd yr amserlen gan yr Ymddiriedolwyr, a fydd nawr yn cael ei rhannu gyda staff.

3.6 Adroddiad Cynnydd Codi Arian

Adroddodd y Prif Weithredwr fod citbag o brosiectau'n cael ei greu i benderfynu ar flaenoriaethau i'n galluogi i wneud ceisiadau am gyllid i ymddiriedolaethau a chyllidwyr. Ym mis Medi, byddwn hefyd yn canolbwyntio ar ail gychwyn y rhaglen cymynroddion.

Pwysleisiwyd mai un aelod o staff llawn amser sydd yn yr uned codi arian, ond bod cynlluniau ar y gweill i ail strwythuro rhywfaint o fewn Swyddfa'r Prif Weithredwr, a gellir ystyried defnyddio gwasanaeth allanol i gefnogi'r gwaith. Gofynnwyd i'r Ymddiriedolwyr gysylltu gyda Pedr os oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau neu syniadau ar gyfer cysylltu ag ymddiriedolaethau/sefydliadau ac ati.

Adroddwyd bod £1,775 wedi ei dderbyn hyd yma yn sgil ymgyrch Casgliad Cartwnau Mumph. Mae tudalen yn mynd i gael ei chreu ar ein prif wefan ar gyfer yr ymgyrch yma.

Adran 4 Materion Ariannol

4.1 Cyfrifon Blyneddol 2018 – 2019

Cyflwynwyd y Cyfrifon gan Emyr Phillips a thynnodd sylw'r Ymddiriedolwyr at y canlynol ar dudalen 28

- a) Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig – y ffaith fod y Llyfrgell wedi derbyn £250k o gyllid ychwanegol ym mis Ionawr 2019 sy'n gyfrifol am yr elw
- b) Banc - mae'r cynnydd a welir ar 31 Mawrth 2019 yn cyfateb i'r oedi yn y rhaglen gyfalaf, a bu'n rhaid i'r Llyfrgell gael caniatâd i gario'r swm yma drosodd
- c) Pensiwn wrth gefn – mae'r cynnydd ar sail perfformiad y portffolio cynllun pensiwn

Ystyriwyd y Cyfrifon yn fanwl gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 5 Gorffennaf, ag argymhelliad y Pwyllgor i'r Bwrdd oedd y dylid eu derbyn; bryd hynny roedd hynny'n amodol ar ddatrys cwestiwn ynglŷn ag asedau Adnau Cyfreithiol Electronig o gwmpas

- a) Costau staff o £450k wedi eu capitaleiddio wrth osod fyny'r ased
- b) Anfonebau i'r Llyfrgell Brydeinig o £86k wedi eu capitaleiddio, pan, ym marn Swyddfa Archwilio Cymru, ni ddylent fod. Dylai'r rhain fod wedi eu trin fel refeniw ac nid eu capitaleiddio fel ased o 2010/11 - 2012/13.

Cyflwynodd y Llywydd Jason Garcia i adrodd ar yr *Audit of Financial Statements Report and Management Letter*, ac adroddodd Jason fod y sefyllfa ers cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi newid, yn dilyn datrysiaid i'r materion uchod, a bod yr Archwilydd Cyffredinol bellach yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwiliad diamod; mi fydd y Cyfrifon yn cael eu cyflwyno i'r Archwilydd ar 5 Awst.

Amlygodd Jason y canlynol:

Paragraff 6 ar dudalen 4 – *“The quantitative levels at which we judge such misstatements to be material for the National Library of Wales are £279,000 for income and expenditure items and working capital balances, and for other balances.”* Nododd Jason nad oedd unrhyw gamgymeriadau uwchben y swm yma.

Paragraff 11 ar dudalen 5 – *Uncorrected Misstatements*

Cyfeirir yma at y datganiad a nodir o dan b) uchod. Cadarnhaodd Jason nad yw'r Cyfrifon wedi eu haddasu i drin y £86k fel refeniw ond mae wedi derbyn cadarnhad y bydd y Llyfrgell yn trin yr anfonebau yma fel refeniw o hyn allan.

Cyfeiriodd Jason yr Ymddiriedolwyr hefyd at Atodiad 3 ar dudalen 14 sy'n cyfeirio at gamddatganiadau

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad
£595,000	Natur y cywiriad – Nodyn 10 – Asedau Sefydlog Triaethol Cynhwyswyd gwerth o £595k yn asedau datblygiadau digidol a chyfarpar cyfrifiadurol oedd yn cyfeirio at drwyddedau meddalwedd a'r sistem Adnau Cyfreithiol Electronig. Oherwydd natur yr asedau yma, dylent fod wedi eu cyfrif fel asedau anniriaethol.

Diolchwyd i Emyr Phillips am baratoi'r Cyfrifon Blynyddol a diolchodd y Prif Weithredwr i Jason a staff Swyddfa Archwilio Cymru am eu cydweithrediad.

Cymeradwywyd y Cyfrifon Blynyddol gan yr Ymddiriedolwyr, ac yn dilyn eu cymeradwyo gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 5 Awst, byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Llyfrgell.

4.2 Newidiadau i'r Polisi Buddsoddi

Yn dilyn cyflwyniad Investec i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr flwyddyn ddiwethaf, dylai'r argymhellion a wnaed fod wedi eu cofnodi yn y Polisi Buddsoddiadau. Llithrodd hyn drwy'r rhwyd, felly gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r canlynol fel bod modd iddynt gael eu cynnwys yn y Polisi i alluogi Investec i weithredu ar ran y Llyfrgell.

5.1 Rhaid i gronfeydd preifat y Llyfrgell gael eu buddsoddi yn unol â Deddf Ymddiriedolwyr 2000. Mi fydd y cronfeydd yn cael eu buddsoddi mewn ystod eang o fondiau llog sefydlog a rhai mynegrifol - giltiau a bondiau corfforaethol gradd buddsoddi. Bydd ecwitiau'n cael eu cynnwys o fewn mynegai FTSE 350, **serch hynny, bydd gan y rheolwr ddisgresiwn i fuddsoddi mewn cwmnïau'r DU nad yw'n rhai FTSE 350, gyda phob buddsoddiad cychwynnol yn cyfrif am ddim mwy na 1% o'r portffolio a dim mwy na phump ar unrhyw amser (y gwerth cychwynnol i gyfrif tuag at amrediad asedau ecwiti'r DU). Dylai'r rheolwyr ystyried cwmnïau dim ond pan fydd gwaith diwydrwydd dyladwy perthynol wedi ei ymgymryd yn unol â'u polisiau mewnol.**

5.8 Mae'r Llyfrgell yn cydnabod fod ganddi ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ystyried cynaliadwyedd ac effaith hir dymor ei gweithredoedd. Bydd y Llyfrgell yn annog ei rheolwr buddsoddiadau i edrych am gyfleoedd i fuddsoddi mewn cwmnïau sy'n arddangos lefelau uchel o lywodraethiant corfforaethol a chyfrifoldeb amgylcheddol a chymdeithasol, sydd hefyd yn fuddsoddiadau ariannol hir dymor da.

4.3 Cynllun Ariannol Tymor Canolig – diweddariad cynnydd

Cytunwyd y dylid cynnwys hwn fel eitem ar agenda nesaf y Pwyllgor Cynllunio Ariannol.

Adran 5 Adroddiadau o Bwyllgorau

5.1 Cofnodion Drafft Grŵp Codi Arian a gyfarfu ar 12.04.19

Nid oedd gan y Prif Weithredwr na'r Cadeirydd, Richard Houdmont, unrhyw beth i'w ychwanegu at yr hyn oedd yn ymddangos yn y cofnodion.

5.2 Cofnodion Drafft Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad a gyfarfu ar 17.05.19

Nid oedd gan y Cadeirydd dros dro, Eleri Twynog Humphries, unrhyw beth i'w ychwanegu at yr hyn oedd yn ymddangos yn y cofnodion.

5.3 Adroddiad llafar o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gyfarfu ar 5/7/19

Cadarnhaodd David Michael, yn dilyn yr archwiliad mewnol ar Iechyd a Diogelwch, fod y profion canlynol wedi eu cwblhau; Legionella, adroddiad blynyddol ar y pypiau chwistrellu wedi ei gwblhau a thystysgrif cynnal a chadw wedi ei derbyn ar gyfer pypiau atal yn y gegin. Mae amserlen ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd o'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch hefyd wedi ei drefnu.

5.4 Cofnodion Drafft Pwyllgor Ymgynghorol Adeiladau a gyfarfu ar 20.06.19

Amlygodd y Cadeirydd, Liz Siberry'r prif bwyntiau.

Anghydfod asbestos - mae'r Llyfrgell yn aros am farn y cyfreithwyr ynglŷn â'r posibilrwydd o ddwyn achos yn erbyn yr ymgynghorydd (Lucion) a'r contractiwr (Kaefer).

Graddfa'r gwaith - nododd Liz fod y risgiau ynglŷn â'r adnoddau a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer rheoli a goruchwyllo'r gwaith yn cael eu rheoli.

Adran 6 Materion y Llyfrgellydd

6.1 Adolygiad Teilwredig

Aelodau'r Panel ar gyfer cynnal yr Adolygiad fydd Rheon Thomas, Efa Gruffudd Jones, Aled Eirug ag Emyr Williams. Mi fydd cyfweiliadau a gweithdai'n cael eu cynnal yn Aberystwyth a Chaerdydd yn ystod mis Medi, ac mi fydd yr Ymddiriedolwyr yn cael gwahoddiad i ymuno gyda'r rhain yn fuan.

Diolchodd Pedr i Lywodraeth Cymru am gydweithio gyda'r Llyfrgell ar yr Adolygiad.

6.2 Adolygiad Blynyddol 2018 – 2019

Adroddodd y Prif Weithredwr fod yr Adolygiad Blynyddol bellach gyda'r dylunydd, a nododd fod bwriad darparu hwn yn electronig yn unig o eleni ymlaen, ond hefyd darparu crynodeb papur o ryw bedair tudalen. Mae hyn yn deillio o sylw a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn dilyn craffu ar y Cyfrifon Blynyddol fod defnydd y Llyfrgell o bapur wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Cytunodd yr Ymddiriedolwyr yn unfrydol gyda'r awgrym y dylid cyhoeddi'r Adolygiad yn electronig yn unig.

Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn awyddus i edrych ar ffyrdd eraill o leihau'r defnydd o bapur a bydd Clerc y Bwrdd yn cysylltu yn fuan am syniadau/awgrymiadau pellach.

6.3 - 6.6 Ymweliadau a Derbyniadau

Croesawodd y Prif Weithredwr y Dâm Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol, Prif Weithredwr UNESCO, a Peter Halligan, Prif Ymgynghorydd Gwyddonol Llywodraeth Cymru i'r Llyfrgell yn ddiweddar.

Cafwyd ymweliad hefyd gan Glwb y Garreg Wen, Porthmadog, ac mae llythyr diolch gan yr ysgrifennydd wedi ei gynnwys gyda'r papurau.

Yn ogystal â'r ymweliadau yma, mae nifer o blant ysgol yma'n ddyddiol sy'n rhoi cyffro arbennig i'r lle.

Mynychodd y Prif Weithredwr dderbyniad gan Lysgenhadaeth Siapan yng Nghaerdydd ac un gan *Friends of the National Libraries* yn Llundain, elusen sy'n gefnogol iawn i'r Llyfrgell. Bu hefyd mewn cyfarfod o'r Prif Lyfrgellwyr yng Nghaergrawnt, ble bu trafod ar y storfa ddigidol yn y cwmwl ar gyfer deunydd adnau cyfreithiol electronig; bydd Pedr yn paratoi adroddiad pellach ar hyn at y dyfodol.

Adran 7 Materion y Llywydd

7.1 Apwyntiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr - diweddariad

Cyfeiriodd y Llywydd eto at ansawdd uchel y ceisiadau a oedd wedi'u derbyn, ond ysywaeth nid yw'r broses penodi wedi'i chwblhau eto gan Lywodraeth Cymru. Bu'n broses araf iawn. Gobeithir y bydd y penodiadau wedi'u gwneud yn fuan ac y gwelwn ni'r aelodau newydd yn cychwyn ar eu tymhorau ar 1 Awst.

Adran 8 Unrhyw fater arall

8.1 Llawlyfr yr Ymddiriedolwyr

Mae copi o'r Llawlyfr diwygiedig wedi ei ddsbarthu i bob Ymddiriedolwr ac mae copi electronig hefyd wedi ei osod yn eich ardal neilltuol ar y wefan. O hyn allan, y fersiwn electronig yn unig fydd yn cael ei ddiweddarau, ac nid yr un print. Mae hyn eto yn ymateb i'r ymgais i leihau'r defnydd o bapur yn y Llyfrgell.

8.2 Gwerthusiadau Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Atgoffodd y Llywydd yr aelodau y dylid anelu at gwblhau'r ffurflen werthuso a'i dychwelyd i Glerc y Bwrdd cyn gynted â phosib, fel bod modd bwrw ymlaen gyda'r cyfweiliadau. Diolchwyd i'r rhai hynny sydd eisoes wedi dychwelyd eu ffurflenni.

8.3 Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd Linda Tomos, y cyn Lyfrgellydd a Phrif Weithredwr, ar gael ei phenodi'n Gymrawd Prifysgol Cymru Dewi Sant. Gofynnwyd i Glerc y Bwrdd anfon neges at Linda ar ran yr Ymddiriedolwyr yn ei llongyfarch.

Rhwng 12.30 - 1.00, cafwyd cyflwyniad gan gwmni Investec, sy'n gyfrifol am bortffolio buddsoddiadau'r Llyfrgell. Cafwyd cadarnhad gan y cwmni bod y portffolio'n parhau i berfformio'n foddhaol.

**** DIWEDD Y CYFARFOD ****